**Delio gyda Hawliau Gwybodaeth**

**Set o egwyddorion cytunedig rhwng**
**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a**
**Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.**

## Cefndir

Mae gan bob dinesydd yr hawl i ofyn am wybodaeth gyhoeddus dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (DRhG) neu Reoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 (RhGA), ac i ofyn am gael gweld eu data personol eu hunain trwy wneud cais gwrthrych am wybodaeth dan Ddeddf Diogelu Data 1998 (DDD).

Mae'r rhain yn hawliau pwysig. Mae'r hawl i droi at wybodaeth gyhoeddus mewn amgylchiadau priodol yn allweddol er mwyn sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn dryloyw ac yn atebol. Mae hawl gwrthrych am wybodaeth yn fynegiant ymarferol o hawl sylfaenol unigolyn i gael parch ar gyfer eu bywyd preifat. Mae'r Comisiynydd Gwybodaeth yn gyfrifol am hyrwyddo ac am arddel yr hawliau hyn.

Mae modd i'r hawliau unigol hyn, fodd bynnag, gael eu cyfyngu, i'r graddau ag y bydd angen gwneud hynny er mwyn diogelu hawliau a rhyddid eraill neu am resymau pwysig eraill y maent yn ymwneud â budd y cyhoedd. Felly, mae DRhG a DDD yn darparu ar gyfer cadw gwybodaeth yn ôl pan geir mecanwaith deddfwriaethol dros wneud hynny, a gaiff ei weithredu yn y ffordd gywir.

Mae'r Ombwdsmon yn ystyried cwynion ynghylch camweinyddu a methiant gwasanaethau a wneir yn erbyn darparwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru dan Ddeddf yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 (Deddf OGCC). Yn ogystal, mae'r Ombwdsmon yn ystyried cwynion bod aelodau awdurdodau lleol wedi torri eu Cod Ymddygiad; nodir y pwerau hyn yn Neddf Llywodraeth Leol 2000 (DLlL) a rheoliadau cysylltiedig.

Mae'r Ombwdsmon yn croesawu'r hawliau mynediad a nodir yn Neddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 1998 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004. Ar yr un pryd, mae Deddf OGCC yn nodi bod yn rhaid cynnal ymchwiliadau mewn ffordd breifat a cheir cyfyngiadau ar ddatgelu gwybodaeth sy'n cael ei sicrhau wrth benderfynu a ddylid cychwyn ymchwiliad neu sy'n cael ei sicrhau yn ystod ymchwiliad[1]. Yn ogystal, mae'r Ombwdsmon yn cynnal ymchwiliadau Cod Ymddygiad mewn ffordd breifat, ac mae DLlL yn cynnwys cyfyngiadau penodol ynghylch datgelu gwybodaeth sy'n cael ei sicrhau yn ystod ymchwiliad o'r fath. Cyflwynwyd y cyfyngiadau er mwyn sicrhau bod modd i'r Ombwdsmon gyflawni ei swyddogaeth statudol mewn ffordd effeithlon,

---

[1] Mae Deddf OGCC yn cynnwys amgylchiadau eraill a restrir, lle y mae gwybodaeth wedi cael ei sicrhau, y maent yn destun cyfyngiadau ar ddatgelu hefyd.

gan weithredu fel gwrthbwys angenrheidiol i bwerau eang yr Ombwdsmon i sicrhau gwybodaeth.

Mae'r Comisiynydd Gwybodaeth a'r Ombwdsmon yn cydnabod natur gydategol eu swyddogaethau o ddelio gyda chwynion, ac maent yn cadw mewn cof eu profiad o'r darpariaethau sy'n caniatáu'r broses o rannu gwybodaeth rhwng y ddau sefydliad, lle y mae'n ymddangos bod y wybodaeth yn ymwneud â materion y mae gan y Comisiynydd Gwybodaeth neu'r Ombwdsmon awdurdodaeth i orfodi yn eu cylch[2]. Mae'r Comisiynydd Gwybodaeth a'r Ombwdsmon o'r farn bod y profiad hwn, fel sy'n cael ei gynnwys mewn statud, yn cynorthwyo cydweithrediad rhwng ei gilydd, ac mae'r eglurder a gynigir gan y geiriad yn y statud yn parchu cyfrifoldebau a phethau neilltuol unigryw ei gilydd.

Lluniwyd y set hon o egwyddorion cyffredinol er mwyn adlewyrchu awdurdodaethau cymharol yr Ombwdsmon a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), a'r cyswllt rhwng y ddeddfwriaeth berthnasol a welir wrth ddelio gyda hawliau gwybodaeth. Gall y cysylltiadau hyn fod yn gymhleth ac nid yw'r papur hwn yn cynnig set gynhwysfawr o gyfarwyddiadau technegol, ond yn hytrach, mae'n rhoi rhywfaint o gyd-destun a dulliau gweithredu y cytunwyd arnynt wrth ddelio gyda cheisiadau am wybodaeth.

**Y cyd-destun deddfwriaethol**

Mae Adran 3 Deddf OGCC yn mynnu bod unrhyw gamau sy'n cael eu cymryd mewn perthynas â datrys cwyn mewn ffordd amgen, yn cael eu cynnal mewn ffordd breifat. Pan fo'r Ombwdsmon yn ymchwilio i gŵyn, mae adran 13(2) Deddf OGCC yn nodi bod yn rhaid cynnal yr ymchwiliad mewn ffordd breifat. Mae Adran 34X yn nodi'r dibenion cyfyngedig y mae modd i wybodaeth sy'n cael ei sicrhau gan yr Ombwdsmon wrth gyflawni'r swyddogaethau hyn, gael ei datgelu. O ran cwynion sy'n ymwneud â Chod Ymddygiad, nodir y cyfyngiadau yn adran 63 DLlL.

Mae modd i aelodau'r cyhoedd ofyn am wybodaeth gan awdurdodau cyhoeddus dan DRhG. Pan wneir cais RhG sy'n ymwneud ag ymchwiliad Ombwdsmon, rhaid ystyried gweithrediad adran 44 DRhG. Mae adran 44 yn darparu bod gwybodaeth yn wybodaeth wedi'i heithrio os bydd unrhyw ddeddf arall yn gwahardd ei datgelu.

Caiff ceisiadau am ddata unigolyn gan yr unigolyn dan sylw, yn hytrach na cheisiadau am wybodaeth gyhoeddus neu wybodaeth sy'n ymwneud â rhywun arall, eu gwneud dan DDD. Mae gweithrediad DDD a'i chyswllt gydag adran 34X Deddf OGCC ac adran 63 DLlL yn wahanol i weithrediad DRhG. Mae adran 27(5) DDD yn drech na'r gwaharddiadau statudol yn Neddf OGCC a DLlL. Mae

2 Adran 76(1) Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ac adran 34X(2)(j) Deddf OGCC

hyn yn golygu mai'r unig adeg y bydd modd cadw data personol yn ôl yw pan fydd eithriad perthnasol yn bodoli dan DDD.
Nid yw hyn yn golygu, fodd bynnag, bod yn rhaid rhyddhau'r holl ddata personol dan ddarpariaethau DDD fel rhan o'r drefn.  Mae adran 31(4) DDD yn caniatáu i'r Ombwdsmon atal mynediad i ddata personol i'r graddau ag y byddai caniatáu mynediad i'r data personol hwnnw yn debygol o niweidio'r broses o gyflawni ei swyddogaethau statudol mewn ffordd gywir.

Mae'r Ombwdsmon wedi esbonio, os bydd gwybodaeth mewn ffeil cwyn yn cael ei rhyddhau dan DDD (pan fo deddfwriaeth yr Ombwdsmon yn nodi mewn ffordd eglur bod ymchwiliadau'r Ombwdsmon yn cael eu cynnal mewn ffordd breifat ac mai mewn amgylchiadau cyfyngedig iawn yn unig y dylid datgelu gwybodaeth), mae'r cyrff y maent yn cael eu hymchwilio yn debygol o fod yn llai tebygol o roi'r holl wybodaeth y mae angen i'r Ombwdsmon ei chael er mwyn cyflawni ei swyddogaethau statudol mewn ffordd effeithiol.

Gwnaeth y Senedd dderbyn bod budd cyhoeddus eglur y tu ôl i'r gwaharddiad statudol – gwnaeth hyn arwain yn uniongyrchol at basio adran 31(4) DDD, ac mae bodolaeth y gwaharddiad statudol yn ffactor perthnasol wrth benderfynu a ddylid rhyddhau gwybodaeth bersonol neu beidio.  I bob diben, mae adran 31(4) yn helpu'r Ombwdsmon i gyflawni ei swyddogaethau mewn ffordd sy'n annog pobl i roi'r wybodaeth y mae angen iddo ei chael iddo, er mwyn ymchwilio i'r cwynion sy'n cael eu cyfleu iddo.

Fodd bynnag, mae bodolaeth y prawf 'tebygol o niweidio' yn nodi mewn ffordd eglur nad yw'r eithriad hwn yn gweithredu fel cais hollgynhwysfawr sy'n cynnwys yr holl ddata personol yn holl ymchwiliadau'r Ombwdsmon, ac mae'r eithriad yn berthnasol i'r graddau y byddai datgelu'r wybodaeth bersonol i wrthrych y data yn debygol o niweidio'r broses o gyflawni ei swyddogaethau mewn ffordd gywir yn unig beth bynnag.

Felly, rhaid i'r Ombwdsmon sicrhau cydbwysedd rhwng ei ddyletswydd i weithredu mewn ffordd agored a thryloyw, a'r ddyletswydd i weithredu yn unol â'r ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu ei waith a diogelu preifatrwydd gwybodaeth bersonol a gwybodaeth arall a roddir i'r Ombwdsmon mewn ffordd gyfrinachol.

**Sut y bydd yr Ombwdsmon yn delio gyda cheisiadau am wybodaeth**

Bydd yr Ombwdsmon yn prosesu ceisiadau am wybodaeth yn unol â gofynion DRhG, RhGA a DDD, gan ddiogelu gwybodaeth y dylid ei chadw yn breifat ar yr un pryd, yn unol â'r ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu gwaith yr Ombwdsmon.  Er mwyn sicrhau'r cydbwysedd hwn, bydd yr Ombwdsmon yn mabwysiadu dull gweithredu tri cham, gan ystyried yr holl ofynion deddfwriaethol wrth ddelio gyda cheisiadau am wybodaeth.  Mae'r tri cham hwnnw fel a ganlyn:

- Datgelu dan Ddeddf OGCC a/neu DLlL.
- Datgelu dan DRhG (neu RhGA).
- Datgelu dan DDD.

Mae'r Atodiadau ar gyfer yr egwyddorion hyn yn nodi sut y bydd yr Ombwdsmon yn delio gyda cheisiadau am wybodaeth yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol a'r hyn y bydd SCG yn ei ystyried wrth ystyried hawliau cwyn a gweithrediad DRhG, RhGA neu DDD.

Llofnodwyd

..........................................
Nick Bennett
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

...........................................
Christopher Graham
Comisiynydd Gwybodaeth

..............................................
Dyddiad

**Atodiad A**

**Datgelu gan yr Ombwdsmon dan Ddeddf OGCC a/neu DLlL**

Bydd yr Ombwdsmon yn ystyried a fydd modd i'r wybodaeth y gofynnwyd amdani gael ei rhyddhau dan ei ddeddfwriaeth ef, gan ystyried y darpariaethau canlynol:

- Adran 3(3) Deddf OGCC, sy'n nodi bod yn rhaid i gam sy'n cael ei gymryd mewn perthynas â datrys cwyn mewn ffordd amgen, gael ei wneud yn breifat, ac adran 13(2), sy'n nodi bod yn rhaid cynnal ymchwiliad mewn ffordd breifat.

- Adran 34X(2) Deddf OGCC sy'n atal gwybodaeth sy'n cael ei sicrhau gan yr Ombwdsmon neu ei swyddogion yn yr amgylchiadau a nodir yn adran 34X(1) rhag cael ei datgelu, oni bai ei bod yn cael ei datgelu at un diben cyfyngedig neu fwy. Mae'r rhai mwyaf perthnasol o'r dibenion hynny yn debygol o fod at ddibenion cynnal ymchwiliad; ac at ddibenion datganiad neu adroddiad a luniwyd mewn perthynas â chwyn neu ymchwiliad).

- Adran 63(1) DLlL, sy'n nodi'r cyfyngiadau ar ddatgelu gwybodaeth sy'n cael ei sicrhau yn ystod ymchwiliad Cod Ymddygiad.

Dan ddarpariaethau'r ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu gwaith yr Ombwdsmon, felly, mae'r wybodaeth y mae modd ei datgelu am ei ymchwiliadau yn gyfyngedig. Mewn gwirionedd, mae hyn yn golygu y bydd gwybodaeth sy'n cael ei sicrhau wrth benderfynu a ddylid cychwyn ymchwiliad dan Ddeddf OGCC neu sy'n cael ei sicrhau yn ystod ymchwiliad dan Ddeddf OGCC, neu wybodaeth sy'n cael ei sicrhau yn ystod ymchwiliad dan DLlL, yn cael ei rhyddhau pan fo hynny yn cael ei wneud at ddibenion yr ymchwiliad hwnnw (er enghraifft, er mwyn gwneud ymholiadau am y corff y cwynwyd amdano) neu ar gyfer adroddiad yr ymchwiliad/llythyr penderfyniad. Mae hyn yn sicrhau bod achwynydd yn gweld y wybodaeth (yn wybodaeth bersonol a heb fod yn bersonol) sy'n berthnasol i'r penderfyniad er mwyn galluogi'r achwynydd i wneud sylwadau ynghylch canfyddiadau ac argymhellion (os o gwbl). Gallai'r wybodaeth hon fod yn mynd y tu hwnt i'r wybodaeth y byddai gan ddeisyfydd yr hawl i'w gweld dan DRhG, DDD a RhGA ac fe allai gynnwys, er enghraifft, gwybodaeth a fyddai'n destun braint gyfreithiol. Ni chaiff unrhyw wybodaeth a sicrhawyd ond nad yw'n berthnasol i ymchwiliad, adroddiad/llythyr penderfyniad yr Ombwdsmon ei datgelu i'r achwynydd.

**Atodiad B**

**Datgelu gan yr Ombwdsmon dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 neu Reoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004.**

Yn ogystal, bydd yr Ombwdsmon yn ystyried a fydd modd rhyddhau'r wybodaeth y gofynnwyd amdani dan DRhG (neu RhGA).

Mae adran 44(1) (a) DRhG yn eithrio gwybodaeth rhag cael ei rhyddhau os bydd ei datgelu yn cael ei wahardd dan unrhyw ddeddf arall. Felly, mae unrhyw wybodaeth sy'n cael ei sicrhau gan yr Ombwdsmon wrth benderfynu a ddylid cychwyn ymchwiliad dan Ddeddf OGCC neu sy'n cael ei sicrhau yn ystod ymchwiliad dan Ddeddf OGCC, neu unrhyw wybodaeth sy'n cael ei sicrhau yn ystod ymchwiliad dan DLlL, ac y mae'r gwaharddiadau statudol yn adran 34X Deddf OGCC neu adran 63(1) DLlL yn berthnasol iddi felly, yn cael ei heithrio rhag cael ei datgelu dan DRhG. Mae'r eithriad hwn yn absoliwt – hynny yw, nid oes modd ei ddiystyru beth bynnag fo'r budd i'r cyhoedd beth bynnag o ryddhau'r deunydd dan sylw.

O ran ystyried cais am wybodaeth dan RhGA, bydd yr Ombwdsmon yn ystyried pob achos yn ofalus gan ystyried unrhyw eithriadau perthnasol (adran 12(4)(e) ac adran 12(5)(d) yn fwyaf arbennig). (Ni cheir eithriadau 'absoliwt' o fewn RhGA a bydd angen ystyried budd y cyhoedd bob amser).

**Ystyriaethau'r Comisiynydd Gwybodaeth dan DRhG a RhGA**

Os bydd unigolyn yn arfer eu hawliau i droi at y Comisiynydd Gwybodaeth, bydd y Comisiynydd Gwybodaeth yn ystyried y gŵyn. Pan na fydd gwybodaeth wedi cael ei rhyddhau dan DRhG, bydd hysbysiad gwrthod priodol wedi cael ei gyhoeddi a bydd yr Ombwdsmon yn barod i esbonio ei sefyllfa i SCG yn hyn o beth.

Bydd y Comisiynydd Gwybodaeth yn ystyried natur y cais a'r rhesymau dros ei wrthod, gan ystyried gweithrediad adran 44 DRhG pan fo hynny'n briodol.

Caiff gwybodaeth sy'n cael ei sicrhau gan yr Ombwdsmon at ddibenion ymchwiliad neu yn ystod ymchwiliad ei chynnwys yn y gwaharddiad statudol ac ni fydd modd ei datgelu at ddibenion ac eithrio'r hyn a nodir yn y ddeddfwriaeth.

Unwaith eto, bydd gwybodaeth sy'n cael ei dal gan awdurdod cyhoeddus ac sy'n deillio o'r Ombwdsmon (hynny yw, gwybodaeth a sicrhawyd gan yr Ombwdsmon at ddibenion ymchwiliad neu yn ystod ymchwiliad) yn cael ei chynnwys yng ngwaharddiad statudol yr Ombwdsmon hwnnw, ac nid oes modd ei datgelu.

Caiff gwybodaeth sy'n cael ei chreu gan awdurdod cyhoeddus at ddibenion ymchwiliad gan yr Ombwdsmon ei chynnwys yng ngwaharddiad statudol yr Ombwdsmon hefyd.

Nid yw gwybodaeth sy'n cael ei dal gan awdurdod cyhoeddus at ddibenion ei swyddogaethau ei hun ac nad yw'n cael ei chynnwys yn y darpariaethau uchod, ond y mae wedi cael ei rhannu gyda'r Ombwdsmon yn ystod ymchwiliad neu at ddibenion ymchwiliad, yn cael ei chynnwys yn y gwaharddiad statudol, felly dylid ei datgelu neu ei chadw yn ôl gan yr awdurdod cyhoeddus hwnnw dan ddarpariaeth wahanol o fewn DRhG.

**Datgelu gan yr Ombwdsmon dan Ddeddf Diogelu Data 1998 (DDD)**

Bydd yr Ombwdsmon yn ystyried hawliau unigol dan y Ddeddf Diogelu Data hefyd, gan ystyried unrhyw eithriad perthnasol.

Nodir y gallai unrhyw wybodaeth mewn ffeil ymchwilio Ombwdsmon fod yn wybodaeth bersonol, ond ni fydd yr holl wybodaeth mewn ffeil ymchwilio yn perthyn i'r categori hwn o reidrwydd.

Fel y nodwyd uchod, mae'r angen i ddiogelu preifatrwydd yr ymchwiliad ac i sicrhau gweithrediad effeithlon ac effeithiol ei swyddogaethau statudol, yn golygu y bydd yr Ombwdsmon yn gwneud penderfyniadau ynghylch datgelu dan DDD yng ngoleuni bodolaeth bwriad y tu ôl i adran 4, adran 13 ac adran 34X Deddf OGCC, adran 63 DLlL, ac adran 7, adran 27(5) ac adran 31(4) DDD.

Nid yw hyn yn golygu bod yr Ombwdsmon neu y bydd yr Ombwdsmon yn mabwysiadu dull gweithredu hollgynhwysfawr wrth ystyried ceisiadau unigol am wybodaeth dan DDD neu wrth weithredu adran 31(4) DDD. Yn hytrach, bydd yr Ombwdsmon yn ystyried pob achos unigol yn ofalus er mwyn canfod a oes rheswm penodol, yn yr achos hwnnw, dros ddiystyru hawl mynediad yr unigolyn trwy gynnal y gwaharddiad statudol a chadw gwybodaeth bersonol yn ôl (ond nad yw eisoes wedi cael ei datgelu at ddibenion ei ymchwiliad).

Os bydd yr Ombwdsmon yn dod i'r casgliad bod adran 31(4) DDD yn berthnasol, bydd angen i'r Ombwdsmon fod yn benodol wrth nodi/disgrifio dosbarthiadau/categorïau y dogfennau y maent, yn ei farn ef, wedi'u heithrio rhag cael eu datgelu ac yna, esbonio pam bod adran 31(4) yn berthnasol i'r dosbarthiadau hynny o ran dogfennau. Bydd angen ystyried yn ofalus er mwyn nodi data personol, er mwyn bodloni gofynion darpariaethau gwrthrych am wybodaeth dan DDD a deddfwriaeth yr Ombwdsmon, ond nid oes angen i'r Ombwdsmon fabwysiadu esboniad fesul dogfen neu fesul llinell ar gyfer SCG.

**Ystyriaethau'r Comisiynydd Gwybodaeth dan Ddeddf Diogelu Data 1998 (DDD)**

Pan fydd unigolyn yn ceisio asesiad gan SCG yn dilyn cais gwrthrych am wybodaeth (neu yn wir, unrhyw brosesu honedig arall nad yw'n cydymffurfio), dan adran 42 DDD, bydd SCG yn ystyried gweithrediad y Ddeddf a chydymffurfiaeth gyda'r egwyddorion diogelu data.

Felly, mae'n bwysig sicrhau bod digon o wybodaeth yn cael ei darparu ynghylch gweithrediad adran 31 wrth gadw data personol yn ôl. Dylid cofio bod SCG, wrth gynnal asesiad, yn ystyried a yw egwyddorion y Ddeddf yn cael eu gweithredu ac a yw hi'n debygol neu'n annhebygol yn y pen draw y bydd amodau'r Ddeddf yn cael eu torri. Gallai hyn ymatal rhag diffinio pa ddarnau o ddata personol (os o gwbl) y dylid eu rhyddhau, ond bydd angen i unrhyw esboniad, i'r achwynydd ac i SCG, fod yn ddigon manwl er mwyn caniatáu i'r asesiad gael ei gynnal o safbwynt gwybodus. Gan bod gweithrediad adran 31(4) DDD yn cyfyngu ar yr

hyn y byddent yn hawliau unigolion dan y Ddeddf fel arall i bob pwrpas, mae angen i SCG deimlo'n fodlon, pan ddibynnir ar yr eithriad hwn, ei fod yn cael ei gefnogi gan ddadl resymol yn hytrach na chan weithrediad dull gweithredu hollgynhwysfawr, fel bod yr holl bartïon yn ymwybodol o'r graddau y byddai datgelu yn debygol o niweidio swyddogaethau statudol.